OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2001 No. 1424

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001

RHAN II

SWYDDOGAETHAU DISGYBLU Y CYNGOR

Sefydlu Pwyllgorau Ymchwilio

3.—(1) Rhaid i'r Cyngor sefydlu un neu ragor o bwyllgorau i'w galw'n Bwyllgorau Ymchwilio er mwyn cyflawni'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2).

(2) Swyddogaethau Pwyllgor Ymchwilio yw—

(a) cynnal unrhyw ymchwiliadau a welant yn dda mewn achosion—

(i) pan honnir bod athro neu athrawes gofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, neu eu bod wedi'u collfarnu (ar unrhyw adeg) o dramgwydd perthnasol, neu

(ii) pan yw'n ymddangos iddynt y gall athro neu athrawes gofrestredig fod yn euog fel hyn neu wedi'u collfarnu fel hyn; a

(b) penderfynu, yng ngoleuni eu hymchwiliadau—

(i) a oes gan athro neu athrawes gofrestredig achos i'w ateb mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu gollfarn am dramgwydd perthnasol, ac a ddylai'r achos gael ei gyfeirio at Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer dyfarniad,

(ii) a oes gan athro neu athrawes gofrestredig achos i'w ateb mewn perthynas ag anghymhwysedd proffesiynol difrifol, ac a ddylai'r achos gael ei gyfeirio at Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer dyfarniad,

(iii) a oes gan athro neu athrawes gofrestredig achos i'w ateb mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu gollfarn am dramgwydd perthnasol ac mewn perthynas ag anghymhwysedd proffesiynol difrifol, ac a ddylai'r achos gael ei gyfeirio at naill ai Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer dyfarniad, fel y gwelant yn dda,

(iv) a oes gan athro neu athrawes gofrestredig ddim achos i'w ateb ac y dylai'r achos yn eu herbyn gael ei ollwng, neu

(v) a ddylai'r achos yn erbyn athro neu athrawes gofrestredig gael ei ollwng ar sail arall.